**DAN EMBARGO HYD DDYDD IAU 17 MEDI 2026 am 12pm (BST)**

# "Canllaw i ddechreuwyr" wedi'i gyhoeddi i helpu ysgolheigion mewn perygl fynd i'r afael â'r byd academaidd yn y DU

### Is-bennawd:

Adnodd cynhwysfawr newydd sy'n lleihau rhwystrau i ysgolheigion sy'n ailadeiladu eu gyrfaoedd a'u rhwydweithiau proffesiynol mewn system academaidd newydd.

### Prif gorff

Mae Academi Ifanc y DU wedi lansio canllawiau newydd ar gyfer academyddion sydd wedi cyrraedd y DU yn ddiweddar i'w helpu i barhau gyda'u gyrfaoedd.

Mae nifer o ysgolheigion sydd mewn perygl yn cyrraedd y DU gydag arbenigedd academaidd sylweddol ond maent yn gyfyngedig o ran pa mor gyfarwydd ydynt ynghylch sut mae'r byd academaidd yn y DU yn gweithio. Gall dadleoli gorfodol amharu ar hunaniaeth broffesiynol, rhwydweithiau a gwybodaeth sefydliadol, gan ei gwneud hi'n fwy anodd mynd i'r afael â system addysg uwch anghyfarwydd ac ailadeiladu gyrfa.

Heddiw, mae tîm prosiect Ysgolheigion a Gweithwyr Proffesiynol Mewn Perygl Academi Ifanc y DU wedi cyhoeddi'r *'Beginner's guide to UK academia'* hygyrch er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch yma, gan gefnogi academyddion i ddeall sut mae'r byd academaidd yn y DU yn gweithio, sut allant fod yn rhan ohono, a ble i ddod o hyd i ragor o gefnogaeth, a'r cyfan wrth iddynt geisio ymgartrefu mewn gwlad newydd.

Yn bwynt mynediad hygyrch i system gymhleth ac annelwig yn aml, mae'n cyfuno canllawiau cyflwyniadol gyda chyfeirio at adnoddau arbenigol.

Bydd y canllaw hwn yn cynnwys pynciau'n amrywio o strwythurau prifysgol, llwybrau gyrfa academaidd, a theitlau swyddi i brosesau recriwtio, ariannu ymchwil a'r prif sefydliadau o fewn tirwedd addysg uwch y DU.

Mae'r adnodd hwn ar gael ochr yn ochr â chanllawiau tebyg gan gyd-academyddion ifanc cenedlaethol, gan gynnwys *A Beginner's Guide to Dutch Academia,* a *A Beginner's Guide to Swedish Academia*, wnaeth ysbrydoli datblygu'r canllaw hwn yn uniongyrchol.

Mae'r ffisegydd niwclear Hasan Maridi yn aelod o Academi Ifanc y DU, ac yn Gyn Gymrawd Ymchwil Cyngor Academyddion Mewn Perygl (Cara) ym Mhrifysgol Manceinion. Dywedodd:

"Hyd yn oed i rywun gyda phrofiad academaidd sylweddol, gall mynd i mewn i'r system yn y DU fod yn heriol oherwydd bod nifer o'i strwythurau, terminoleg a disgwyliadau, yn

anghyfarwydd. Mae llawer o'r wybodaeth yma'n aml yn cael ei rhagdybio yn hytrach na'i hegluro'n fanwl.

"Gall cael gwybodaeth glir mewn un lle hygyrch leihau ansicrwydd, helpu pobl i ddeall y cyfleoedd a disgwyliadau o fewn y byd academaidd y DU, a rhoi mwy o hyder iddynt i ofyn y cwestiynau cywir a dod o hyd i gefnogaeth briodol ar adeg o'u bywyd sydd eisoes yn heriol."

Dywedodd Anthony Kevins, Uwch-ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Rhyngwladol ym Mhrifysgol Loughborough ac arweinydd datblygu adnoddau:

"Dyw arbenigedd a gallu ddim yn diflannu pan mae rhywun yn cael ei ddadleoli'n orfodol o'i wlad ei hun. Ac eto, rydym yn gweld y gall hynny fod yn wir o ran rhwydweithiau proffesiynol, gwybodaeth sefydliadol, momentwm o ran gyrfa, a chyfalaf diwylliannol.

"I weithwyr proffesiynol gyrfa gynnar - sydd yn aml yn parhau i fod yn y broses o sefydlu eu hunaniaeth broffesiynol - gall delio gyda dadleoli fod yn arbennig o heriol.

"Mae Academi Ifanc y DU yn freintiedig i gael mynediad at amrywiaeth eang o arbenigwyr a safbwyntiau ar hyd a lled y DU, gan gynnwys gan rai o gefndiroedd lle maent mewn perygl. Bu i nifer o'r safbwyntiau hynny helpu i greu'r adnodd hwn, a fydd gobeithio yn grymuso ysgolheigion sydd mewn perygl fel eu bod yn gallu delio gyda'n sefydliadau drwy wybodaeth."

Mae Canllawiau Dechreuwyr i Fyd Academaidd y DU ar gael am ddim ar wefan Academi Ifanc y DU: https://ukyoungacademy.org/activities/at-risk-scholars-and-professionals-uk-wide-initiative/beginners-guide-to-uk-academia/

Mae Academi Ifanc y DU wedi'i hariannu gyda grant gan y Gymdeithas Frenhinol o'r Adran Fusnes, Arloesi, Gwyddoniaeth a Masnach.

**DIWEDD**

**Manylion Cyswllt**

Am ragor o wybodaeth am Academi Ifanc y DU ac er mwyn gwneud cais am gyfweliadau gyda llefarydd, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda thîm Staff Academi Ifanc y DU:

**Lucy Parfitt**
Swyddog Cyfathrebu Academi Ifanc y DU
enquiries@ukyoungacademy.org.uk

**Nodiadau i olygyddion**

**Cefndir Academi Ifanc y DU**

Mae Academi Ifanc y DU yn cysylltu ac yn datblygu unigolion talentog yn ystod blynyddoedd cynnar eu gyrfaoedd o amrywiaeth eang o sectorau fel eu bod yn gallu cydweithredu i wneud gwahaniaeth yn y byd.

Mae'n rhan o fenter ryngwladol sy'n tyfu, ac sy'n rhoi llais i arloeswyr, gweithwyr proffesiynol, academyddion ac entrepreneuriaid ifanc ar ddechrau eu gyrfa er mwyn hybu materion sy’n bwysig iddyn nhw. Mae Academi Ifanc y DU yn rhoi cyfle i’w haelodau gael eu safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth wedi’u cynrychioli ar draws y dirwedd arloesi ehangach, gan gynnwys cyrff proffesiynol a sefydliadau y tu hwnt i’r byd academaidd.

Cafodd Academi Ifanc y DU ei sefydlu yn dilyn cytundeb gan y saith academi hŷn ar draws y DU ac Iwerddon Academi Gwyddorau Meddygol, yr Academi Brydeinig, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Academi Frenhinol Peirianneg, Academi Frenhinol Iwerddon, Cymdeithas Frenhinol Caeredin a’r Gymdeithas Frenhinol. Gan weithio’n agos â’r Academi Ifanc Fyd-eang ac Academi Ifanc yr Alban, cafodd ei sefydlu dan nawdd y Gymdeithas Frenhinol yn 2022.

Mae rhaglenni gwaith a mentrau sy’n cael eu harwain gan aelodau mewn cydweithrediad gyda phartneriaid a sefydliadau allanol eisoes ar waith er mwyn mynd i’r afael â blaenoriaethau strategol Academi Ifanc y DU sydd wedi’u nodi yn ystod ei flwyddyn gyntaf. https://ukyoungacademy.org/

Dewch o hyd i Academi Ifanc y DU ar LinkedIn, Facebook, YouTube, a X.

Mae Academi Ifanc y DU yn seiliedig ar gyfres o werthoedd a rennir, gan gynnwys:

- Rhagoriaeth – bydd aelodau yn rhagori yn eu meysydd eu hunain.
- Tryloywder – bydd strwythur arweinyddiaeth clir sy’n atebol ac wedi’i ethol drwy weithdrefnau tryloyw.
- Uniondeb - bydd aelodau’n cynnal safonau uchel o ran moeseg er mwyn gwneud cyfraniad credadwy at faterion byd-eang.
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – gwneir ymrwymiad i ddenu aelodaeth amrywiol, a bydd aelodau yn ymrwymo i gynnal amgylchedd cynhwysol a chyfartal i bawb.

Mae Academi Ifanc y DU wedi’i hariannu gyda grant gan y Gymdeithas Frenhinol o’r Adran Fusnes, Arloesi, Gwyddoniaeth a Masnach.

**Cefndir prosiect Ysgolheigion a Gweithwyr Proffesiynol Mewn Perygl**

Mae’r **fenter Ysgolheigion a Gweithwyr Proffesiynol Mewn Perygl** yn cysylltu ysgolheigion a gweithwyr proffesiynol y mae eu gyrfaoedd wedi cael eu hamharu arnynt gan wrthdaro, dadleoli, neu erledigaeth, gyda chyfleoedd i aelodau, adnoddau a chefnogaeth gan Academi Ifanc y DU.

Nod y prosiect yw helpu cyfranogwyr i ailadeiladu eu gyrfaoedd yn y DU, drwy gyfleoedd megis:

- Aelodaeth o Academi Ifanc y DU,
- Mentora,
- Hyfforddiant proffesiynol,

- Canllawiau ymarferol ar gyfer delio gydag elfennau academaidd a phroffesiynol penodol y DU.

Mae'r fenter ymarferol sy'n canolbwyntio ar gyfranogwr yn cefnogi unigolion sydd mewn perygl i barhau gyda'u gwaith proffesiynol a chefnogi datblygiad hirdymor eu gwledydd gartref, ac ar yr un pryd gwneud yn fawr o dalentau, safbwyntiau ac arbenigedd ysgolheigion a gweithwyr proffesiynol mewn perygl, a'u hyrwyddo, er budd y DU.

Mae prosiectau Academi Ifanc y DU wedi'u cynllunio gan aelodau ac mae mentrau yn cael eu hariannu gan Academi Ifanc y DU sy'n ymchwilio i heriau cymdeithasol drwy gydweithrediad rhyngddisgyblaethol a mynd i'r afael â hwy.